

# Safleoedd Ymgeisiol (Cyfnod 2)

Canllaw hanfodol i'r hyn sydd angen i chi ei gyflwyno i gefnogi'ch cyflwyniad safle ymgeisiol.

1

## Llenwch y ffurflen




Atebwch yr holl gwestiynau a osodwyd yn y ffurflen safonedig, os gwelwch yn dda, a rhowch gymaint o fanylion ag sydd modd, gan gynnwys disgrifiad o'r defnydd arfaethedig.

## A yw'r safle'n addas?


2

Mae'r adran hon yn gofyn a oes gan y safle unrhyw gyfyngiadau ffisegol hysbys h.y. topograffeg, halogi, ac ati. Mae hefyd yn gofyn a yw eich safle o fewn parth llifogydd C1 neu C2. Os felly, bydd angen **Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd**.



3

## Pa gyfleustodau sydd ar gael?



Rhaid darparu manylion a oes modd cysylltu'r safle â'r gwasanaethau canlynol. Y cyflenwad dŵr o'r prif gyflenwad, cyflenwad trydan, ffôn llinell dir, prif system garthffosiaeth, cyflenwad nwy, band eang, ac os oes yna rai eraill rhowch fanylion pellach, os gwelwch yn dda.

## Trafnidiaeth


4

Dylai cynigwyr nodi a yw'r safle'n hygyrch ar hyn o bryd o briffordd gyhoeddus ac os nad yw, sut y bydd modd cael mynediad, gan gynnwys manylion tir trydydd parti os oes angen a'i fanylion cyswllt ef. Ble mae'r arhosfa cludiant cyhoeddus agosaf? A oes hawl tramwy cyhoeddus yn croesi'r safle neu wrth ei ymyl? Ble mae'r cyfleuster cymunedol agosaf? Ydy'r safle wedi ei leoli'n agos at lwybr beicio a/neu lwybrau teithio llesol? Dylai **Datganiad Trafnidiaeth** fod ynghlwm wrth y cyflwyniad.



5

## Oes modd cyflawni'r safle ac a fydd yn hyfyw?




Rhowch syniad ynghylch yr amserlen debygol ar gyfer cyflwyno'r cais cynllunio, cychwyn ar y safle a syniad o'r cyfraddau adeiladu blynyddol disgwylid yn ystod y cyfnod 2018-2033. Rhaid bod modd i'r safleoedd ymgeisiol gael eu cyflawni o fewn cyfnod arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod yn gofyn am **Asesiad Hyfywedd** i fod yn gysylltiedig â phob cyflwyniad.

## Arolwg Coed


6

Bydd yn angenrheidiol darparu **Arolwg Coed** ar gyfer unrhyw safle ymgeisiol lle mae coed o fewn neu wrth ymyl y safle arfaethedig. Dylid llunio'r datganiad yn unol â'r canllawiau a nodir yn BS5837:2012. Mae'r Safon Brydeinig yn ei gwneud yn ofynnol i Dyfwr Coed gofnodi gwybodaeth am goed ar y safle yn annibynnol o unrhyw gynllun penodol ar gyfer datblygu a chyn unrhyw gynllun.



7

## Bioamrywiaeth




Bydd angen **Arolwg Bioamrywiaeth ac Adroddiad** i gyd-fynd â'r cyflwyniad yn nodi a yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar Rywogaethau Gwarchoddedig Ewropeaidd, unrhyw gynefinoedd bywyd gwylt neu nodweddion arwyddocaol, Dylid darlunio lleoliad cynefinoedd unrhyw rywogaethau sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 neu Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992.

## Amgylcheddol

8

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 yn nodi'r amgylchiadau lle mae angen **Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA)**. Efallai y bydd AEA yn amlygu'r angen am asesiadau eraill mwy penodol. A fydd pawb sy'n cyflwyno gystal ag ystyried Rheoliadau'r AEA cyn cyflwyno ei safle i benderfynu a oes angen AEA a darparu datganiad byr.



# Safleoedd Ymgeisiol (Cyfnod 2)

Canllaw hanfodol i'r hyn sydd angen i chi ei gyflwyno i gefnogi'ch cyflwyniad safle ymgeisiol.

9

## Ecoleg




Mae Asesiad Effaith Ecolegol yn broses fwy manwl o nodi, mesur a gwerthuso effeithiau posibl datblygiad, o ran effeithiau ar rywogaethau, cynefinoedd a/neu'r ecosystemau. Mae adnabod unrhyw gyfyngiadau ecolegol yn gynnar yn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael eu gohirio a bod mesurau lliniaru neu iawndal priodol wedi eu cynnwys yn y cynllun. Dylai **Asesiad Effaith Ecolegol** fod yn gysylltiedig â phob cyflwyniad.

## Darparu Manylion Ychwanegol

10

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Awdurdod yn gofyn am **Fap Seiliedig ar Arolwg Ordans, ar y raddfa ofynnol o 1: 2500, yn amlinellu'r tir i'w ystyried mewn COCH** i gyd-fynd â'r cyflwyniad.



11


## Cyflwyno



Er mwyn i'r Safleoedd Ymgeisiol gael eu hystyried fel rhan o'r CDLI diwygiedig, rhaid dychwelyd y ffurflen gyflwyno, y cynllun a'r asesiadau manwl erbyn **cannol dydd ar Ddydd Iau, y 29ain o Awst 2019** drwy'r post neu'r e-bost i [LDP@beacons-npa.gov.uk](mailto:LDP@beacons-npa.gov.uk).

## Beth sy'n digwydd nesaf?

12



- Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth bod eich cyflwyniadau wedi eu derbyn;
- Ychwanegir y manylion i gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol;
- Efallai y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth am eich safle a/neu efallai y byddwn yn dymuno ymweld â'ch safle a byddwn yn cysylltu â pherchennog y tir am ganiatâd i wneud hynny.
- Bydd Asesiad Cam 3 yn dechrau gan gynnwys Asesiad SA/SEA;
- Caiff Cofrestrï Safleoedd Ymgeisiol eu diweddarau;
- Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys dyraniadau Safleoedd Ymgeisiol arfaethedig.